Grŵp Goruchwylio Iechyd Gwaed Cenedlaethol
Blood Health National Oversight Group



# Strategaeth Addysg Trallwyso

***2025-2028***

Cynhyrchwyd ar ran y Grŵp Goruchwylio Iechyd Gwaed Cenedlaethol (BHNOG)

# Llais y Claf

"Nid triniaeth yn unig yw trallwysiad gwaed; mae'n rhaff achub. Boed eich trallwysiad gwaed cyntaf neu'ch canfed, mae'r effaith bob amser yn sylweddol. O flinder i gryfder newydd, o negyddiaeth i bositifrwydd.

Y tu ôl i bob bag o waed mae haelioni rhoddwr a thalent tîm meddygol. Mae'r rhai sydd angen gwaed yn rhoi eu hunain yn nwylo darparwyr gofal y mae ganddyn nhw ymddiriedaeth ynddynt. Mae ganddyn nhw ffydd bod yr unigolyn sy'n gofalu amdanyn nhw yn ystod y trallwysiad wedi'i hyfforddi'n dda, yn wybodus ac yn hyderus yn y driniaeth maen nhw'n ei darparu. Yn bennaf, maen nhw'n teimlo'n dawel eu meddwl eu bod nhw'n ddiogel ac yn cael gofal da.

Mae'r angen am strategaeth addysg glir a gweledigaethol i barhau i ddarparu'r safon gofal hon yn hanfodol. Mae angen i ni sicrhau bod y gofal a roddir yn rhagorol yn glinigol yn ogystal â thosturiol, a'i fod yn ystyried anghenion unigol cleifion a'u teuluoedd. Mae'r Strategaeth Addysg ar gyfer 2025–2028 yn hanfodol i sicrhau ein bod yn parhau i ddarparu lefel wych o ofal, yn enwedig i'r unigolion hynny sydd angen trallwysiadau gwaed i fyw yn ogystal â ffynnu."

***Jemin Popat - Cynrychiolydd Cleifion i BHNOG***



# Rhagair



Sarah Beuschel
Cadeirydd Grŵp Strategaeth Addysg BHNOG
Ymarferydd Trallwyso - BIP Aneurin Bevan

Y Grŵp Goruchwylio Iechyd Gwaed Cenedlaethol (BHNOG) yw'r corff cyfrifol am drallwysiadau gwaed a materion sy'n gysylltiedig â thrallwysiadau gwaed yng Nghymru. Fe'i sefydlwyd yn 2017 i gefnogi cyflawniad y Cynllun Iechyd Gwaed (BHP) ar draws GIG Cymru. Mae'r BHP ac o ganlyniad y BHNOG wedi nodi sawl nod strategol allweddol sy'n berthnasol i drallwysiadau ac sy'n hwyluso arferion gorau. Yn annatod i'r nodau hyn mae datblygu strategaeth addysg trallwyso.

Fel cadeirydd Grŵp Strategaeth Addysg BHNOG, rwy'n falch iawn o gyflwyno Strategaeth Addysg Trallwyso 2025–2028.

Mae'r strategaeth hon yn nodi moment hollbwysig yn y daith tuag at ddatblygu addysg trallwysiadau arloesol sy'n barod ar gyfer y dyfodol. Mae wedi'i llunio trwy gydweithio eang â rhanddeiliaid allweddol ac mae'n adlewyrchu gwerthoedd cyffredin a dyheadau ar y cyd ar gyfer addysg trallwyso yng Nghymru. Wrth ei wraidd mae gweledigaeth feiddgar: sef sicrhau bod gan bob gweithiwr gofal iechyd proffesiynol sy'n ymwneud â'r broses drallwyso'r wybodaeth, y sgiliau a'r hyder sydd eu hangen arnynt i ymgymryd â'u rôl.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae addysg trallwyso gwaed wedi dod i'r amlwg yn dilyn cyhoeddi argymhellion yr Ymchwiliad Gwaed Heintiedig (IBI). Mae ffocws y strategaeth hon yn glir: sicrhau addysg trallwyso deg a sicrhau bod addysg trallwyso yn cael ei chyflwyno'n briodol ledled Cymru.

Rwy'n ddiolchgar iawn i aelodau'r Grŵp Strategaeth Addysgol ac i bawb a gyfrannodd at ddatblygu'r strategaeth hon. Mae eich mewnwelediadau, eich ymroddiad, a'ch ymrwymiad diysgog i ragoriaeth addysg trallwyso wedi gosod sylfaen gref ar gyfer y blynyddoedd i ddod.

Grŵp Goruchwylio Iechyd Gwaed Cenedlaethol
Blood Health National Oversight Group

# Gwerthoedd

## Mynediad

Rydym yn ceisio:

- Sicrhau mynediad cyfartal at addysg trallwyso safonol ledled Cymru, i bob aelod o staff clinigol a labordy.
- Dileu'r rhwystrau y mae gweithwyr gofal iechyd proffesiynol yn eu hwynebu wrth gael mynediad at addysg trallwyso.

## Ansawdd

Rydym yn ceisio:

- Sicrhau bod addysg trallwyso o ansawdd uchel yn cael ei chynhyrchu gan arbenigwyr yn y maes a'i chyflwyno'n brydlon ac yn deg ledled Cymru.

## Canlyniadau

Rydym yn ceisio:

- Annog cydweithio tuag at ddatblygu a gweithredu addysg trallwyso.
- Defnyddio cymhwysiad deallus o ddata archwilio, adborth a phrosesau sicrhau ansawdd i sicrhau dull sy'n seiliedig ar risg ac sy'n cael ei arwain gan anghenion, sy’n ysgogi gwelliannau yn yr addysg a ddarparwn.

Grŵp Goruchwylio Iechyd Gwaed Cenedlaethol
Blood Health National Oversight Group

# Datganiad Cenhadaeth

"Hyrwyddo darpariaeth addysg trallwyso safonol o'r brig i'r gwaelod i weithwyr gofal iechyd yng Nghymru. Bydd hyn yn galluogi darparu gofal o ansawdd uchel, rhoi diogelwch yn flaenllaw mewn arferion trallwyso a hyrwyddo dull rheoli gwaed cleifion."

Grŵp Goruchwylio Iechyd Gwaed Cenedlaethol
Blood Health National Oversight Group

# Ein Taith Hyd Yma

**2004**

Sefydlwyd BBTT (Tîm Trallwyso Gwaed Gwell) mewn ymateb i WHC 2002/137

**2017**

Cymeradwywyd Cynllun Iechyd Gwaed, WHC 2017/028 gan Lywodraeth Cymru. Wedi'i ddatblygu ar y cyd â Byrddau Iechyd Lleol

**2017**

Sefydlwyd Grŵp Goruchwylio Iechyd Gwaed Cenedlaethol (BHNOG).

**2018**

Ailenwyd BBTT yn Dîm Iechyd y Gwaed (BHT) i gysylltu â BHP a BHNOG

**2018**

Datblygwyd ffrydiau gwaith allweddol i gynnwys anemia, platennau, OD Neg ac addysg.

**2024**

Cyhoeddwyd adroddiad terfynol yr Ymchwiliad Gwaed Heintiedig gan Syr Brian Langstaff, yn tynnu sylw at 10 argymhelliad allweddol.

Grŵp Goruchwylio Iechyd Gwaed Cenedlaethol
Blood Health National Oversight Group

# Addysg Wedi'i Gwreiddio

| Statws | Enw/Disgrifiad o'r Ymyrraeth Addysgol | Grŵp Staff |
|---|---|---|
| **Wedi'i gwreiddio** | Awdurdodiad Annibynnol ar gyfer Trallwyso Gwaed (IABT): Cymhwyster ôl-raddedig ar gyfer ymarferwyr uwch y mae eu hymarfer yn cefnogi awdurdodi cyfansoddion gwaed. | Gweithwyr gofal iechyd proffesiynol uwch a staff clinigol. |
| **Wedi'i gwreiddio** | Cynorthwyydd Myfyrwyr Hŷn (SSA): Hyfforddiant ymarferol 3 awr mewn ymarfer trallwyso sy'n trosi gwybodaeth ddamcaniaethol yn gymhwysiad ymarferol | Myfyrwyr Meddygol blwyddyn olaf ledled Cymru |
| **Wedi'i gwreiddio** | Cymwyseddau Trallwyso Cymru Gyfan: Cymwyseddau casglu, gweinyddu a samplu cyn trallwyso. Wedi'u hasesu yn unol â gofynion rheoleiddio. | Grwpiau staff clinigol perthnasol sy'n ymwneud â llwybrau trallwyso. |
| **Wedi'i gwreiddio** | Hyfforddiant Cofrestrydd Arbenigol (SpR): Rhaglen addysg trallwyso a ddarperir gan Wasanaeth Gwaed Cymru i gefnogi gwybodaeth cofrestryddion am drallwyso. | Cofrestryddion Haematoleg Arbenigol |

# Rhanddeiliaid Allweddol




> "Mae hyn yn nodi'r rhwydwaith o randdeiliaid allweddol sydd eu hangen i fynd i'r afael â'n blaenoriaethau addysgol. Byddwn yn parhau i ymgysylltu â'r grwpiau hyn a gweithio ar y cyd i sicrhau ein bod yn darparu addysg drallwyso arloesol ac yn gwreiddio egwyddorion arferion trallwyso diogel."

Grŵp Goruchwylio Iechyd Gwaed Cenedlaethol
Blood Health National Oversight Group

# Ein Grwpiau Blaenoriaeth

Rydym wedi diffinio 6 blaenoriaeth strategol ar gyfer 2025 - 2028, ac rydym wedi ymrwymo i weithio tuag at eu cyflawni. Bydd llwyddiant yn cael ei fesur drwy feincnodi cydymffurfedd ledled Cymru i symud ymlaen tuag at gyrraedd safonau diogelwch SHOT a mynd i'r afael â bylchau drwy hyfforddiant ymwybyddiaeth a gweithgareddau addysg.

## Blaenoriaeth 1 - Meddygol

- Rhaglen Sylfaen.
- Rhaglen Ysgol Feddygol Israddedig.

## Blaenoriaeth 2 - Bydwreigiaeth

- Addysg Israddedig. Ein nod yw gweithio gyda Sefydliadau Addysg Iechyd i ddiffinio gofynion a datblygu pecyn safonol ar gyfer Bydwragedd yng Nghymru.

## Blaenoriaeth 3 - Nyrsio

- Addysg Israddedig: Mae'r rhaglen waith hon eisoes wedi'i datblygu ond mae angen ei hadolygu a chynnal gwaith ymgysylltu i'w gwreiddio ledled Cymru.
- Addysg Ôl-raddedig: IABT - darparu hyfforddiant arbenigol ar gyfer trallwyso.

Grŵp Goruchwylio Iechyd Gwaed Cenedlaethol
Blood Health National Oversight Group

# Ein Grwpiau Blaenoriaeth

Rydym wedi diffinio 6 blaenoriaeth strategol ar gyfer 2025 - 2028, ac rydym wedi ymrwymo i weithio tuag at eu cyflawni. Bydd llwyddiant yn cael ei fesur drwy feincnodi cydymffurfedd ledled Cymru i symud ymlaen tuag at gyrraedd safonau diogelwch SHOT a mynd i'r afael â bylchau drwy hyfforddiant ymwybyddiaeth a gweithgareddau addysg.

## Blaenoriaeth 4 - Gwyddonol

- Addysg Gwyddonwyr Biofeddygol: Byddwn yn cydweithio ar draws y pedair gwlad i ddeall y gofynion staff labordy i ddarparu rhaglen addysg arbenigol a llwybrau mynediad i wyddonwyr biofeddygol sydd â diddordeb mewn dilyn gyrfa mewn trallwyso gwaed.

## Blaenoriaeth 5 - Presgripsiynwyr Annibynnol

Anelu at baratoi'r grwpiau hyn i ysgwyddo'r cyfrifoldeb am y penderfyniad clinigol i awdurdodi trallwyso cyfansoddion gwaed i gleifion o fewn cwmpas penodol o ymarfer clinigol a chymhwysedd.

- Modiwl Presgripsiynwyr Annibynnol Trallwyso Gwaed.
- Cymdeithion Meddygol (PA) / Cymdeithion Anesthetig (AA)
- Gweithlu Fferyllfeydd

## Blaenoriaeth 6 - Ymarferwyr Trallwyso (TPs)

- Ein nod yw gweithio gyda gwledydd eraill y DU i lywio fframwaith gyrfa cenedlaethol ar gyfer Ymarferwyr Trallwyso, a fydd yn diffinio eu gofynion addysg.

Grŵp Goruchwylio Iechyd Gwaed Cenedlaethol
Blood Health National Oversight Group

# Sut olwg fydd ar lwyddiant?

Dod i gonsensws ar ddiffiniad cytûn o ofynion addysgol grwpiau staff blaenoriaeth.

**Mesur**:
Cytundeb cenedlaethol mewn cydweithrediad â grwpiau cenedlaethol.

Gwell hyder gan gleifion ynghylch diogelwch trallwyso.

**Mesur**:
Arolygon cleifion
Adrodd ar bryderon/digwyddiadau.

Cyflawni argymhellion 7d IBI.

**Mesur**
Adrodd cenedlaethol i gyrff llywodraethu, Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU a grwpiau yn y DU.

Gwelliannau o ran diogelwch cleifion.

**Mesur**:
Gostyngiad yn nifer yr adroddiadau am ddigwyddiadau trallwyso trwy SHOT.

Bydd bylchau ac amrywiadau mewn addysg yn cael eu trafod.

**Mesur**:
Dadansoddiad bwlch ar bob grŵp blaenoriaeth

Llai o ddefnydd amhriodol/y gellir ei osgoi o gyfansoddion gwaed.

**Mesur**:
- Archwiliadau o gyfansoddion gwaed a ddefnyddir yn amhriodol (QS 138). Data yn seiliedig ar BSMS o dueddiadau dal stoc ar draws y blynyddoedd.
- Archwiliad o ddefnydd O Neg mewn MHP

# Sut fydd y strategaeth addysg yn cyflawni gwelliant?

- Mae'r strategaeth hon yn nodi dyheadau ar gyfer addysg, ond bydd y cyd-destun y bydd hyn yn cael ei gyflawni ynddo yn newid o flwyddyn i flwyddyn, yn dibynnu ar y cynllun cyflawni.

- Bydd y BHNOG yn derbyn diweddariad chwarterol ar gynnydd y gwaith cyflawni. Bydd hyn yn cael ei graffu a bydd perfformiad yn cael ei herio yn ôl yr angen. Bydd llwyddiant cyffredinol yn cael ei fesur fel yr amlinellir yn y strategaeth a bydd yn cael ei adrodd yn adroddiad blynyddol BHNOG.

- Bydd y strategaeth ei hun yn cael ei hadolygu bob tair blynedd.

Grŵp Goruchwylio Iechyd Gwaed Cenedlaethol
Blood Health National Oversight Group

# Ein haddewid

Byddwn yn cefnogi pob gweithiwr gofal iechyd i gael yr addysg gywir ar drallwyso, yn y lle iawn, ar yr adeg iawn er mwyn sicrhau diogelwch cleifion.



# Strwythur Llywodraethu BHNOG



# Rhestr Termau

| Term | | Diffiniad |
|---|---|---|
| Grŵp Strategaeth Addysgol | ESG | Nod y Grŵp Strategaeth Addysg yw sicrhau ymagwedd gydlynol a safonol at addysg trallwyso ledled Cymru a gweithio gydag arweinwyr ffrydiau gwaith BHNOG, gweithwyr gofal iechyd proffesiynol allweddol ac arbenigwyr pwnc i gyflwyno rhaglenni addysg trallwyso effeithiol a chynhwysol. |
| Addysg a Gwella Iechyd Cymru | AaGIC | AaGIC yw'r corff addysg statudol a'r sefydliad gweithlu strategol ar gyfer GIG Cymru |
| Sefydliadau Addysg Uwch | SAU | Prifysgolion, colegau a sefydliadau addysg bellach sy'n cynnig ac yn darparu addysg uwch |
| Awdurdodi Trallwyso Cyfansoddion Gwaed yn Annibynnol | IABT | Mae Awdurdodi Trallwyso Cyfansoddion Gwaed yn Annibynnol (IABT) yn gwrs a gyflwynir trwy ddysgu o bell, ac a gynhelir mewn partneriaeth â Gwasanaeth Gwaed Cymru ar gyfer gweithwyr gofal iechyd anfeddygol. Fe'i cynlluniwyd i baratoi gweithwyr gofal iechyd proffesiynol â'r sgiliau, yr wybodaeth a'r cymwyseddau uwch sydd eu hangen ar gyfer awdurdodi a rheoli trallwysiadau gwaed yn ddiogel, yn foesegol ac yn seiliedig ar dystiolaeth. |
| Yr Ymchwiliad Gwaed Heintiedig | IBI | Mae’r Ymchwiliad Gwaed Heintiedig yn Ymchwiliad statudol cyhoeddus annibynnol a sefydlwyd i archwilio'r amgylchiadau y rhoddwyd gwaed heintiedig a chynhyrchion gwaed heintiedig i ddynion, menywod a phlant a gafodd driniaeth gan wasanaethau iechyd gwladol yn y Deyrnas Unedig, yn enwedig yn y 1970au a'r 1980au. |

Grŵp Goruchwylio Iechyd Gwaed Cenedlaethol
Blood Health National Oversight Group

# Rhestr Termau

| Term | | Diffiniad |
|---|---|---|
| Y Tîm Iechyd Gwaed | BHT | Mae Tîm Iechyd y Gwaed (BHT) Gwasanaeth Gwaed Cymru yn gyfrifol am gefnogi defnyddio gwaed yn ddiogel ac yn effeithiol mewn ysbytai yng Nghymru a datblygu adnoddau a hyfforddiant sy'n gysylltiedig â thrallwyso gwaed. |
| Y Cynllun Iechyd Gwaed | BHP | Mae'r Cynllun Iechyd Gwaed wedi'i ddatblygu er mwyn gosod y cyfeiriad ar gyfer optimeiddio arferion iechyd a thrallwyso gwaed yng Nghymru. Yn seiliedig ar egwyddorion Rheoli Gwaed Cleifion (PBM), mae'r BHP yn diffinio tri nod strategol craidd. |
| Gwasanaeth Gwaed Cymru | GGC | Mae Gwasanaeth Gwaed Cymru yn is-adran weithredol o Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre ac mae'n brif gyflenwr cynhyrchion gwaed i GIG Cymru. |
| Cymdeithion Meddyg | PA | Mae Cymdeithion Meddygol yn cefnogi meddygon wrth iddynt reoli cleifion a rhoi diagnosis iddynt |
| Cymdeithion Anaesthesia | AA | Ymarferwyr hyfforddedig, medrus sy'n gweithio o fewn y tîm anesthetig dan oruchwyliaeth ymgynghorydd neu feddyg SAS sy'n ymarfer yn annibynnol. Mae AAs yn rhan o'r Proffesiynau Cymdeithion Meddygol (MAPs), ochr yn ochr â chymdeithion meddygol (PAs) ac ymarferwyr gofal llawfeddygol (SCPs). |
| Grŵp Goruchwylio Iechyd Gwaed Cenedlaethol | BHNOG | Sefydlwyd BHNOG yn 2017 i oruchwylio gweithrediad Cynllun Iechyd Gwaed (BHP) GIG Cymru . |